

Rhif: WG38594





Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Cynulleidfa	Cyrff addysg sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, neu sydd â diddordeb ynddynt, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, undebau athrawon, ESTYN, cyrff dyfarnu, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus ac eraill â diddordeb.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd ar ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel y nodwyd yn Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft (Cymru) 2019
Y camau y mae angen eu cymryd	Er gwybodaeth yn unig
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Is-adran y Gymraeg Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd Cymru CF10 3NQ E-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales
	 @LIC_Addysg
	 Facebook/AddysgCymru
Copiâu ychwanegol	Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.llyw.cymru/ymgyngoriadau Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.
Dogfennau cysylltiedig	Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg (2017) Cymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-2021 (2017) Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 (2017) Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2019)

Cynnwys

Cyflwyniad	
Yr ymgynghoriad	1
Methodoleg	2
Crynodeb o'r prif gynigion	3
Cwestiynau 1 - 5	
Cwestiwn 1:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Cwestiwn 2:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Cwestiwn 3:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Cwestiwn 4:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Cwestiwn 5:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Crynodeb o'r cwestiynau a oedd yn ymwneud ag Asesiadau Effaith	14
Cwestiynau 6 - 9:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Unrhyw fater arall	16
Cwestiwn 10:	
Crynodeb	
Ymateb Llywodraeth Cymru	
Crynodeb Cyffredinol a'r Camau Nesaf	17
Atodiad 1: Ffactorau allanol	18
Atodiad 2: Rhestr o'r ymatebwyr	24

Cyflwyniad

Yr ymgynghoriad hwn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 15 wythnos, rhwng 30 Mai a 13 Medi 2019, er mwyn cael sylwadau ar Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau drafft¹. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd, ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn atodiad 2. Gofynnodd rhai ymatebwyr am gael aros yn ddiennw a pharchwyd y dymuniad hwn yn y crynodeb hwn.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru hefyd bedwar digwyddiad ymgynghori cyhoeddus mewn ysgolion yng Ngheredigion, Conwy, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Daeth tua 100 o bobl i'r digwyddiadau ymgysylltu, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaethau ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd. At hynny, cynhaliwyd sesiwn i bobl ifanc ar 1 Mehefin 2019 yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gydag aelodau o Fwrdd Syr IfanC, pwyllgor cenedlaethol yr Urdd i bobl ifanc.

Gofynnodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 10 cwestiwn mewn perthynas â chynigion i wneud newidiadau i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cynnig 1:** Estyn hyd Cynllun o'i gylch gweithredu cyfredol o 3 blynedd i 10 mlynedd. Cyflwynir y newid hwn gan Reoliad 4 o'r rheoliadau drafft.
- **Cynnig 2:** Dileu'r ddyletswydd bresennol ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni (fel y nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2013).
Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynnwys darpariaeth yn y rheoliadau sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu eu targedau.
- **Cynnig 3:** Darpariaethau newydd i ymdrin â materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn Cynllun (Rheoliad 5).
- **Cynnig 4:** Darpariaeth newydd mewn perthynas ag adolygu a diwygio Cynllun (Rheoliad 6).

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a ddaeth i'r digwyddiadau ymgysylltu. Hoffai Llywodraeth Cymru hefyd ddiolch i benaethiaid yr ysgolion canlynol - Ysgol Bro Teifi, Ysgol y Creuddyn, Ysgol Gwent Is-Coed a Chanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, am gynnal y digwyddiadau.

¹ <https://llyw.cymru/rheoliadau-cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-cymru-2019-ar-canllawiau-drafft>

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- cyflwynwyd 25 ymateb drwy'r ymgynghoriad ar-lein (yr oedd 9 ohonynt yn nodi Dim Ymateb)
- cyflwynwyd 47 ymateb drwy e-bost

Methodoleg

Gofynnwyd y cwestiynau ar ffurf cwestiynau agored, ac nid oedd angen i'r ymatebwyr nodi p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Fel rhan o'r dadansoddiad thematig, trefnwyd y safbwyntiau, y sylwadau, y datganiadau a'r materion a nodwyd gan yr ymatebwyr yn categorïau gan ddefnyddio themâu cyffredinol. Nod y dadansoddiad oedd nodi'r themâu mwyaf cyffredin a oedd yn ymddangos yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y broses ar gyfer cynnal y dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

1. Cofnodwyd yr ymatebion yn erbyn pob cwestiwn a rhoddwyd codau thematig iddynt, er mwyn nodi'r themâu mwyaf cyffredin.
2. Wedyn, aeth un o'r ymchwilyr ati i adolygu'r holl ymatebion a oedd yn weddill i bob cwestiwn er mwyn sicrhau bod y themâu a nodwyd yn parhau'n gyson ac er mwyn nodi themâu newydd a oedd yn dod i'r amlwg.

Drwy'r broses hon bu modd sicrhau bod pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei adolygu'n drylwyr yn ystod y dadansoddiad.

Crynodeb fesul cwestiwn

Mae'n bwysig nodi nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Roedd nifer y sylwadau ysgrifenedig yn amrywio'n sylweddol rhwng cwestiynau. Cyflwynir nifer yr ymatebion i bob cwestiwn mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ymatebwyr ystyried y canlynol:

Cwestiwn 1: Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd
- (b) cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd

Cafwyd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 20 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion o blaid y cynigion i ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd a chychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd. Roedd llawer yn cytuno â Llywodraeth Cymru y gallai Cynllun tymor hwy annog cynllunio mwy uchelgeisiol.

Cyfeiriodd llawer o ymatebion at yr amserlen bresennol o dair blynedd, gan nodi bod y cyfnod hwn yn rhy fyr i gyflwyno newidiadau ystyrlon. Mynegwyd rhwystredigaeth o ran yr amser a oedd yn cael ei dreulio ar hyn o bryd yn diweddarar'r Cynllun tair blynedd yn hytrach na datblygu'r ymrwymadau o fewn y Cynllun ac yn eu rhoi ar waith. Fe'i dilynwyd yn aml gan sylwadau am yr angen i roi digon o amser i gynigion cynllunio ysgolion a chynigion cynllunio ieithyddol ddwyn ffrwyth, nad yw'r cylch presennol yn ei wneud. Cyfeiriodd eraill at y cyfle a gyflwynir gan Gynllun 10 mlynedd o ran gwell cynllunio strategol a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â gweithio tuag at nod a gweledigaeth hirdymor. Er enghraifft, nododd rhai ymatebion:

'Gall cylch cynllunio 10 mlynedd hwyluso a chefnogi trefniadau gweithredu dros gyfnod hirdymor, gan sicrhau ymrwymiad tymor hwy a fyddai'n rhoi cyfle i awdurdodau angori'r cynllun yng nghyd-destun rhaglenni perthnasol eraill fel Ysgolion yr 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg ac ati a hwyluso gwaith cynllunio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Dylai hyn olygu y gellir gweithredu mewn ffordd fwy strategol' [Cyfieithiad]

Ystyriwyd ei bod yn synhwyrol cysoni'r Cynllun â'r cerrig milltir allweddol a nodwyd yn ein Strategaeth Gymraeg Genedlaethol, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* a'r cylch

Cyfrifiadau cenedlaethol. Roedd llawer, er nad pawb, hefyd yn gweld budd mewn Cynllun tymor hwy y gellid cynnwys ffrydiau ariannu amrywiol Llywodraeth Cymru o'i fewn, yn benodol Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ogystal â gofynion cynllunio neu ofynion polisi eraill, fel strategaethau gofal plant neu strategaethau i hyrwyddo'r Gymraeg.

Er bod anghytuno ynghylch y pwynt hwn, roedd a wnelo hynny'n bennaf â'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol wrth ymrwmo i gynlluniau hirdymor heb arwyddion clir y câi cymorth ariannol ychwanegol ei ddarparu. Roedd nifer fawr o ymatebion, yn enwedig gan awdurdodau lleol, yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai cyllid grant ychwanegol (cyfalaf/refeniw) ar gael er mwyn helpu i ymgymryd â gwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r newidiadau arfaethedig. Awgrymwyd na allai'r lefel manylder sydd ei hangen i sicrhau bod y cynllun yn ystyrlon gyfeirio at fwy nag ychydig flynyddoedd, 5 ar y mwyaf, ac mai dim ond amlinelliad cyffredinol o'r weledigaeth y byddai gweddill y Cynllun yn ei gynnig.

Drwy symud i Gynllun 10 mlynedd, cyfeiriodd sawl ymateb hefyd at yr angen i bennu cerrig milltir clir ar hyd y ffordd er mwyn sicrhau cynnydd priodol. Nododd un ymateb:

Yn absenoldeb pwerau gorfodi a chymell ychwanegol, credwn y byddai'n well symud i gynlluniau 5 mlynedd neu gynlluniau 10 mlynedd gydag adolygiad ffurfiol yn y bumed flwyddyn fyddai'n cynnig cyfle pendant i'r Llywodraeth ymyrryd.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i newid y cyfnod presennol, sef y flwyddyn ariannol, i'r flwyddyn academaidd, ar yr amod na fyddai hynny'n arwain at ofyniad i gyflwyno gwybodaeth ddwywaith. Nododd sawl ymateb fod y gofynion adrodd ar gyfer cyllid grant a chyllid cyfalaf yn parhau i weithio ar sail blwyddyn ariannol. Cafwyd croeso cyffredinol hefyd i'r cynnig i ddechrau'r cylch newydd o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn 2021.

Cyfeiriwyd hefyd at yr ansicrwydd gwleidyddol y mae pob un ohonom yn ei wynebu a'r effaith y gall hyn ei chael ar waith cynllunio ysgolion yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn fodlon bod yr ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu ein safbwynt bod symud i gynllun tymor hwy yn cefnogi dull gweithredu strategol gwell mewn perthynas â chynllunio ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ailbwysleisiwyd y farn hon yn y pedwar digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf. Beirniadwyd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg am beidio â dangos digon o uchelgais a phenderfyniad a bydd symud i gynllun 10 mlynedd yn galluogi awdurdodau, a'r rhanddeiliaid sy'n eu cefnogi, i gynllunio gan edrych i'r dyfodol. Rydym yn derbyn yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymrwmo i Gynlluniau hirdymor ar adeg o newid mor sylweddol, gan gynnwys diwygiadau addysg cenedlaethol, pwysau ariannol cynyddol ac ansicrwydd gwleidyddol. Gallwn weld y byddai pennu cerrig milltir neu gyfnodau gweithredu penodol yn ddefnyddiol ac rydym yn ystyried amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn ymdrin â hyn.

Cwestiwn 2:

Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni

(b) disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

(c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol

Cafwyd 54 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 18 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Yn gyffredinol, cafwyd cymeradwyaeth i'r cynnig i ddiddymu'r ddyletswydd i gynnal asesiadau o'r galw ymysg rhieni fel y sail ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd strategol. Cyfeiriodd llawer o ymatebion at y ffaith bod cyfradd ymateb isel iawn yn gysylltiedig ag asesiadau, gan olygu nad oedd y data yn ddibynadwy nac yn addas i'w defnyddio. Teimlad rhai ymatebwyr oedd bod y ddyletswydd i ymgymryd â'r asesiadau yn rhwystro twf mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Serch y gefnogaeth cryf i'r cynnig hwn, nododd nifer fach o ymatebwyr amheuan ynghylch achosion posibl o wahaniaethu yn erbyn dewis rhieni pe bai'r ddyletswydd i asesu'r galw ymysg rhieni yn cael ei diddymu.

Cytunodd sawl un o'r ymatebion â'r safbwynt a amlinellwyd yn y papur ymgynghori fod strategaeth Cymraeg 2050 wedi symud y disgwyliad tuag at fwrw ati mewn modd rhagweithiol i greu galw yn hytrach na mesur y galw. Nododd un ymatebydd fod yr arfer gyfredol yn aml yn arwain at sefyllfa lle mae awdurdodau/cymunedau yn ymateb mewn *'ffordd ymatebol yn hytrach na rhagweithiol i gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg a bod yn rhaid i'r ddarpariaeth ddal i fyny â'r galw o ganlyniad'* [cyfieithiad], gan nodi hefyd *'nad yw cynnal asesiadau o'r galw ymysg rhieni, ar y cyfan, wedi arwain at welliannau sylweddol yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.... Mae'n rhesymol disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd lawer mwy rhagweithiol.'* [Cyfieithiad]

Ar nodyn cadarnhaol, nododd rhai ymatebion rai buddiannau o ran parhau i gasglu gwybodaeth am anghenion rhieni, a chytunodd eraill y gallai hyn fod yn rhan o ymarferion

casglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â strategaethau neu ymgyrchoedd hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn i'w weld yn yr ymateb canlynol:

“Rydym yn croesawu'r cynnig i ddileu'r ddyletswydd i gynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw. Bydd hyn yn dileu elfen o fiwrocratiaeth ddiangen. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod gwerth casglu data a gwybodaeth am fwriadau a gofynion rhieni mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwybodaeth gywir yn gwbl hanfodol yn ystod y broses gynllunio. Dylai gwaith cynllunio effeithiol ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg fod yn seiliedig ar ddyheadau a gwybodaeth’. [Cyfieithiad]

Ychwanegodd ymateb arall:

‘Byddai dileu'r cwestiynau gofynnol yn y rheoliadau yn rhoi'r rhyddid i awdurdodau lleol ddylunio eu harolygon galw / systemau casglu data eu hunain er mwyn deall bwriadau a gofynion rhieni lleol yn ôl yr angen.’ [Cyfieithiad]

Cafwyd croeso cyffredinol hefyd i'r cynnig i ddisodli'r ddyletswydd i asesu'r galw ymysg rhieni a chyflwyno yn ei lle dargedau i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y cyfan, ystyriwyd ei bod yn synhwyrol defnyddio data cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion Blwyddyn 1 fel y llinell sylfaen ar gyfer cyfrifo'r targed, yn ogystal â grwpio awdurdodau yn categorïau gwahanol gan ddangos y gwahaniaethau (ond gan hefyd gydnabod y nodweddion tebyg) rhwng y 22 o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai amheuan ynghylch y newid hwn mewn ffocws. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o amser i ledaenu'r cynnig a'r fethodoleg ac roedd ymatebydd arall o'r farn y dylai'r rhesymeg dros grwpio awdurdodau fod yn fwy tryloyw.

Ymddengys fod cytundeb cyffredinol bod angen cynnig y cyfle i fwy o ddysgwyr ifanc ddod yn siaradwyr Cymraeg hyfedr er mwyn gallu cyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd ymatebion mewn perthynas â'r dull gweithredu ar gyfer cyfrifo cyfraniad unigol pob awdurdod lleol dros gyfnod o 10 mlynedd yn cynnwys geiriau fel 'synhwyrol', 'rhesymol', 'i'w groesawu' a 'buddiol' [cyfieithiadau]. Serch hynny, roedd sawl ymatebydd hefyd yn awyddus i nodi, er nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad sylfaenol i'r gofyniad i bennu targed dros oes y cynllun, bod angen cydnabod y ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol. Cyfeiriwyd at ffactorau fel yr hinsawdd wleidyddol bresennol, problemau o ran capasiti'r gweithlu ac ansicrwydd ariannol.

Cyfeiriodd ymatebion eraill at y risg bosibl bod y targedau yn canolbwyntio'n ormodol ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r llwybr trochi cyfrwng Cymraeg, ac nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i gyfraniad y sector cyfrwng Saesneg. Caiff y pwynt hwn ei ailbwyseisio mewn ymateb arall sy'n cyfeirio at darged Cymraeg 2050 bod 70% o ddysgwyr (o leoliadau cyfrwng Cymraeg a'r lleoliadau cyfrwng Saesneg) yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae'n nodi hefyd bod yr ystod targed hirdymor a awgrymir fesul awdurdod lleol yn rhy isel.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion hyn a'r gefnogaeth i'r cynnig hwn yn y digwyddiadau ymgysylltu, rydym yn hyderus ein bod yn cymryd y camau cywir a phriodol wrth ddileu'r ddyletswydd i gynnal asesiadau o'r galw ymysg rhieni fel y sail ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw hynny'n golygu na ddylid ceisio barn rhieni o gwbl. Fel y nododd llawer o'r ymatebwyr, ceir manteision i arolwg y gellir ei deilwra i weddu'r angen.

Cafodd y cynnig y dylai Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fod yn seiliedig ar darged 10 mlynedd trawsbynciol groeso cyffredinol. Rydym hefyd yn fodlon bod y fethodoleg ar gyfer pennu cyfraniad pob awdurdod lleol at dargedau cerrig milltir Cymraeg 2050 wedi'i derbyn fel methodoleg deg a synhwyrol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar y targedau arfaethedig â phob awdurdod yn unigol, a gwneir hynny ar ddechrau'r broses o baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Fel y nododd sawl ymateb, mae strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mai addysg drochi, sef addysg a ddarperir o fewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf, sy'n darparu'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu unigolion cwbl ddwyieithog. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw galluogi pob dysgwr i feithrin ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd beunyddiol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid i ni sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o gwricwlwm o'r radd flaenaf. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, daw rôl lleoliadau cyfrwng Saesneg i greu dysgwyr sy'n hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac sy'n awyddus i barhau i ddysgu fel rhan o'u haddysg bellach neu eu gyrfaoedd yn gliriach. Rydym yn rhagweld y bydd y rôl honno yn bwysig ac y bydd cyfleoedd i leoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ddatblygu partneriaethau cryf, gan rannu arferion da a gwybodaeth. Gall y CSGA fod yn fforwm i gefnogi ac annog y dulliau gweithredu newydd hynny sy'n gysylltiedig ag addysgu Cymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, dwyieithog a Chymraeg. .

Cwestiwn 3: Hoffem wybod eich barn ar:

(a) y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

(b) canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun

Cafwyd 52 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 20 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Mae'r ymatebion yn awgrymu cytundeb cyffredinol sy'n nodi bod datganiadau sy'n nodi pa wybodaeth ddylai gael ei chynnwys mewn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhesymol. Cafwyd sylwadau o blaid defnyddio data sy'n deillio o ddyletswyddau adrodd eraill, fel yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac adolygiadau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018² i lywio'r gwaith o gynllunio ysgolion. Roedd llawer yn croesawu'r ffocws ar weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (yn arbennig drwy'r fforymau cynllunio Cymraeg mewn addysg) ac awdurdodau lleol, er i un ymatebydd fynegi rhwystredigaeth o ran y cyfyngiadau deddfwriaethol sy'n atal cyfeiriadau uniongyrchol at y consortia addysg rhanbarthol. Yn ogystal, cafwyd cwestiynau o ran y cyfrifoldeb terfynol pe bai trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu rhoi ar waith. Nododd un ymateb, a adlewyrchwyd yn ymatebion sawl awdurdod lleol unigol, fod rhai ffrydiau gwaith bellach y tu allan i reolaeth awdurdodau lleol. Y consortia addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am faterion fel safonau ysgolion, Addysg Gychwynnol i Athrawon a chynllunio'r gweithlu.

Er bod llawer o ymatebwyr o blaid y ffordd y cafodd y datganiadau eu nodi, beirniadodd rhai y geiriad, gan nodi bod angen targedau clir yn hytrach na datganiadau, yn arbennig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chynnydd dysgwyr a chynyddu'r ddarpariaeth addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd rhai ymatebion yn cynnwys awgrymiadau penodol ar gyfer atgyfnerthu geiriad datganiadau. Nododd un ymateb arall fod angen egluro sut roedd y datganiadau yn cyfrannu at y targed 10 mlynedd cyffredinol.

Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch sicrhau cyllid digonol er mwyn helpu i roi'r datganiadau hyn ar waith. Roedd yr holl ymatebion gan awdurdodau lleol a/neu gyrff a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol o blaid cyllid cynyddol neu benodol er mwyn helpu i roi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith. Ar hyn o bryd, caiff cyllid fel y Grant Gwella Addysg, a grantiau i gefnogi Siarter y Gymraeg eu dosbarthu drwy'r consortia addysg rhanbarthol. Noda un ymateb *'er mai awdurdodau lleol sy'n atebol ac yn statudol gyfrifol...mae hyn yn cyflwyno risg annerbyniol gan fod yn rhaid i awdurdodau lleol gystadlu ar lefel ranbarthol am yr adnoddau hynny gan y consortia, gan arwain at enillwyr a chollwyr yng nghyd-destun adnoddau ar gyfer rhoi blaenoriaethau a chanlyniadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg pob sir ar waith'*. [Cyfieithiad]

Nododd un ymateb, o ystyried bod cyllid ysgolion yng Nghymru eisoes o dan bwysau eithriadol, y byddai'r gofynion i gyflawni amcanion ychwanegol nas ariannwyd yn rhoi straen amhosibl ar y system ysgolion. Cyfeiriwyd yn aml at bryderon o ran adnoddau a'r cymorth y byddai eu hangen i roi'r newidiadau hyn ar waith yn y digwyddiadau ymgysylltu hefyd.

Roedd llawer o'r farn bod y canllawiau drafft yn adnodd defnyddiol ar gyfer paratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i roi ar waith. Fodd bynnag, gofynnodd rhai am fwy o

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted>

egllurder ynghylch y fethodoleg ar gyfer cyflwyno'r prif darged 10 mlynedd, yn benodol mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer grwpio awdurdodau. Roedd eraill o'r farn bod y gofynion yn rhy feichus, gan nodi pryderon na allai cyllidebau addysg heriol awdurdodau lleol gefnogi'r camau gweithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn fodlon bod cytundeb cyffredinol bod y datganiadau yn cwmpasu sbectrwm eang o ystyriaethau – y mae angen pob un o'r ystyriaethau hynny er mwyn gallu cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd strategol. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod awdurdodau lleol a rhanddeiliaid addysg eraill yn teimlo y gallai eu gallu i ymateb i ofynion yr atodlen gael ei llesteirio gan ddiffyg cyllid uniongyrchol, cwestiynau ynghylch atebolrwydd a heriau ynghylch trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

O ran y datganiadau eu hun, mae'n werth nodi bod y rheoliadau drafft newydd yn cynnig y dylai Cynllun gynnwys llai o ddatganiadau na'r nifer sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

Byddwn yn ystyried pob awgrym ac opsiwn o ran geiriad amgen mewn perthynas â'r datganiadau penodol yn ofalus iawn. Rydym yn ddiolchgar i'r rheini sydd wedi cynnig dull gweithredu amgen. Lle y bu galw am fwy o eglurder ynghylch sut y gellid dehongli rhai datganiadau neu gwmpas rhai datganiadau, ymdrinnir â nhw drwy ddiwygio naill ai'r atodlen i'r rheoliadau drafft, y canllawiau neu'r ddau.

Rydym yn gwerthfawrogi na all awdurdod lleol ymateb i bob elfen o'r broses o gynllunio Cymraeg mewn Addysg ar ei ben ei hun, a bod angen i randdeiliaid eraill gefnogi'r gwaith hwn. Bydd y newid ffocws ar gyfer rhai datganiadau i annog awdurdodau i weithio mewn partneriaeth yn hytrach na gweithredu ar eu pen eu hunain yn cydnabod y ffaith hon.

Fel llywodraeth, rydym yn gwbl ymwybodol o'n rhan yn y bartneriaeth honno. Rydym yn glir bod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i arwain yr ymateb cenedlaethol i faterion fel addysg gychwynnol i athrawon, y gweithlu ac adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ein helpu i nodi'r bylchau y mae angen ymdrin â nhw. Dyna pam bod y materion hyn wedi'u cynnwys o hyd fel rhan o'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn gwerthfawrogi bod heriau yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth gennym mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso'r trafodaethau hyn ac annog cyfranogiad gan randdeiliaid perthnasol.

Mewn ymateb i rai o'r pryderon am y canllawiau, dylid nodi mai bwriad y canllawiau yw helpu i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith.. Gwyddom fod y canllawiau yn aml yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol yn ogystal â rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i nodi'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau wrth baratoi Cynllun ac wrth roi'r Cynllun hwnnw ar waith. Dylid ystyried awgrymiadau a wneir yn yr adrannau 'ystyriaethau cynllunio' fel cymhorthion cynllunio ac maent yn aml yn enghreifftiau o arfer dda a gasglwyd gan awdurdodau lleol dros y blynyddoedd. Mae'r defnydd o 'rhaid' yn

cyfeirio'n uniongyrchol at ofynion cyfreithiol gyda'r defnydd o 'dylai/gallai' yn cynnig dull cynllunio awgrymedig.

Byddwn yn adolygu'r canllawiau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod wedi llwyddo i daro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol a chanlyniadau ymarferol a'n bod wedi defnyddio tôn priodol.

Cwestiwn 4: Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad.

(b) y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Cynllun.

Cafwyd 42 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 30 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Roedd yr ymatebion yn gyffredinol o blaid cyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol cryno, er i sawl ymatebydd nodi rhywfaint o ddryswch o ran p'un ai dwy ddogfen ar wahân oedd adolygiad blynyddol ac adroddiad cynnydd blynyddol. O ran yr adroddiad cynnydd, gofynnodd sawl ymatebydd am eglurder ynghylch y math o wybodaeth y byddai ei hangen, a lefel y manylion disgwylidig.

Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylid canolbwyntio ar roi camau gweithredu Cynllun ar waith yn hytrach nag ychwanegu unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r farn bod hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr hinsawdd bresennol, sef llai o adnoddau ac ansicrwydd ariannol. Gofynnodd sawl ymateb a fyddai'r dull gweithredu arfaethedig, mewn gwirionedd, yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth ac os felly, nodwyd y byddai hynny'n achos pryder pe na châi cymorth ariannol ychwanegol ei ddarparu. Mae nifer yr ymatebion a nododd bryderon tebyg yn awgrymu nad oedd y rheoliadau a/neu'r canllawiau yn ddigon clir yn hyn o beth.

Nododd sawl ymateb, a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn bennaf, wrth symud i Gynllun hirdymor, y dylid pennu'r cerrig milltir gweithredu ar gyfnodau o 3 blynedd neu 5 mlynedd ac y dylid monitro Cynlluniau yn unol â'r cerrig milltir gweithredu hyn. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn bod y ffocws ar waith monitro a gwerthuso rheolaidd mewn perthynas â Chynlluniau yn cynnig dull cynllunio synhwyrol a phragmataidd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013³ yn datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol 'gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio'. Mae'r broses o ddehongli Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 wedi arwain at sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn ailgyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i adolygu'n llawn bob blwyddyn. Rydym yn gwbl ymwybodol o'r pwysau cynyddol ar adnoddau a wynebier gan awdurdodau lleol ac, am yr union reswm hwnnw, ein bwriad oedd cynnig strwythur adrodd a oedd yn lleihau biwrocratiaeth o'r fath. Nid ydym am i awdurdodau lleol dreulio eu hamser yn aildrafftio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lle y gellid treulio'r amser hwnnw yn well.

Ymddengys nad oedd hyn yn ddigon amlwg yn ein dogfennau ymgynghori a/neu yn y rheoliadau eu hunain. Rydym am egluro nad yw'r strwythur adrodd arfaethedig yn cynnwys gofyniad i Awdurdodau Lleol ddiwygio'r cynllun bob blwyddyn (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).

At ddibenion atebolrwydd, credwn fod diweddariad blynyddol, ar ffurf adroddiad cynnydd cryno, yn rhesymol ac yn gymesur ac yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn fodlon mai dyma'r dull gweithredu cywir. Dyma'r unig adroddiad blynyddol a gâi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

O ran cyflwyno Cynllun diwygiedig, caiff darpariaethau eu cynnwys yn y rheoliadau drafft i ddiwygio'r Cynllun os bydd yn amlwg, ar ôl cyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol, bod angen diwygio'r Cynllun, a bryd hynny'n unig. Byddwn yn ystyried p'un a oes angen egluro'r ddarpariaeth hon ymhellach ai peidio.

Rydym yn cefnogi'r safbwyntiau a wnaed yn nodi nad addysg yw'r unig lwybr ar gyfer cyrraedd uchelgais Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae angen canolbwyntio hefyd ar addysg i oedolion a llwybrau eraill i ddod yn siaradwr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r gofyniad statudol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn un o ofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a rhaid i'r rheoliadau drafft a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn ganolbwyntio ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg statudol. Er eglurder, mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth ôl-16 sydd ar gael mewn ysgolion.

Byddem yn annog awdurdodau i fonitro cynnydd Cynllun drwy gydol y flwyddyn ac i weithio gyda'u fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg er mwyn eu helpu. Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gwyddom ei bod yn afrealistig disgwyl iddynt gyflawni tasg o'r fath ar eu pennau eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg yn barod sy'n cyfarfod fel arfer 2 - 4 gwaith y flwyddyn. Gwyddom hefyd fod fforymau fwyaf effeithiol a rhagweithiol

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/section/84>

pan fyddant wedi cytuno ar gamau gweithredu a thargedau clir wedi'u rhannu ymysg partneriaid y CSGA ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylai'r gofynion adrodd newydd arwain at fforymau'n gweithio'n well gyda'i gilydd, gyda ffocws a chyfeiriad.

Rydym yn derbyn y sylwadau bod angen i Lywodraeth Cymru wella'r trefniadau ar gyfer rhannu arferion da ymhlith awdurdodau lleol. Awgrymwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu bod angen fforwm Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cenedlaethol bob blwyddyn/bob dwy flynedd er mwyn rhannu arferion da. Dylid cyfeirio at yr adran ffactorau allanol yn yr adroddiad hwn sy'n darparu gwybodaeth am y gynhadledd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a drefnwyd ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf.

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reoliadau drafft 2019 a'r canllawiau statudol?

Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 35 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Ailbwysleisiwyd pryderon o ran y cyllid i helpu awdurdodau lleol i roi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith yma. Yn benodol, cyllid sy'n ymwneud â chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a ddsberthir gan Lywodraeth Cymru drwy gonsortia rhanbarthol. Nododd un ymateb:

'Os yw'r holl gynllun am lwyddo yna mae'n rhaid cynyddu capasiti'r awdurdod i weithredu. Mae angen trefn gyllido deg sydd yn sicr ac yn gynaliadwy dros y cyfnod 10 mlynedd er mwyn i'r awdurdod lleol hwn weithredu'n llwyddiannus ar y cynllun yn ei gyfanrwydd.'

Gofynnodd ymateb arall sut y byddai newidiadau i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gweithio gyda'r dyletswyddau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac i'r gwrthwyneb. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys awgrymiadau neu geisiadau penodol ar gyfer atgyfnerthu'r canllawiau. Canolbwyntiodd un awgrym o'r fath ar yr angen i adolygu'r canllawiau er mwyn cynnig adlewyrchiad mwy cywir o ddarpariaethau yn y rheoliadau sy'n ymwneud â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chynllunio'r gweithlu. Roedd ymateb arall yn galw ar Lywodraeth Cymru i '*diffinio ei disgwyliadau yn glir mewn perthynas ag adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008*'. [Cyfieithiad] Caiff y mater hwn hefyd ei godi mewn sawl ymateb arall gan nodi nad yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol yn cydnabod bod dysgwyr sy'n awyddus i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl cyrraedd 16 oed yn aml yn gorfod teithio'n bellach er mwyn gallu manteisio ar ddarpariaeth o'r fath. Aiff un ymateb ymlaen i atgoffa Llywodraeth Cymru bod sicrhau bod pobl ifanc yn parhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn

hanfodol er mwyn denu mwy o fyfyrwyr sy'n gallu addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i ddychwelyd i'r proffesiwn addysgu.

Gwnaed sylwadau am yr angen i nodi'n glir yn y canllawiau statudol beth a olygir gan gontinwrm iaith. Nododd ymatebion fod y sefyllfa yn fwy aneglur byth oherwydd yr amwysedd ynghylch yr hyn a gaiff ei ystyried yn ysgol Gymraeg ei hiaith neu pa ddeiliant ieithyddol y gall dysgwyr sy'n mynd i ysgolion Saesneg â lefel uchel o Gymraeg neu ysgolion dwyieithog ei gyflawni.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd ystyriaethau cynllunio mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu gofal plant yn rhan o'r datganiadau, gan ofyn i hyn gael ei unioni ar ôl yr ymgynghoriad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i sicrhau y caiff y Cod Trefniadaeth Ysgolion ei ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae angen i hyn, fodd bynnag, ddigwydd ar y cyd â datblygiadau polisi sy'n gysylltiedig ag adolygu dynodiad iaith ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg. Mae angen y diffiniadau hyn o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion at ddibenion cynllunio ysgolion. Mae angen eglurder ynghylch y diffiniad o ysgol Gymraeg ei hiaith hefyd at ddibenion gwahaniaethu rhwng canlyniadau cyflawniad/cynnydd pan gaiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno. Bu adolygiad allanol ffurfiol yn mynd rhagddo ers mis Ionawr 2019 a chyflwynwyd adroddiad drafft sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer symleiddio'r diffiniadau a'r categorïau presennol ar gyfer ysgolion. Rydym yn ystyried amrywiol opsiynau ar gyfer cyflawni'r nod polisi hwn.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 a'r canllawiau gofal plant statudol yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad llawn o'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal ac i lunio asesiad digonolrwydd gofal plant. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth lunio'r asesiadau hyn, gan gynnwys anghenion datblygu'r gweithlu a hyfforddiant. . Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos bod yr asesiad digonolrwydd gofal plant a'r CSGA yn ategu ei gilydd yn effeithiol er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn adolygu'r canllawiau drafft mewn ymateb i'r argymhellion penodol a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac yn eu diwygio fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau eglurder mewn perthynas â'r materion hyn.

Crynodeb o'r cwestiynau a oedd yn ymwneud ag asesiadau effaith, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (Cwestiwn 6-9)

Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y costau a amlinellir ar gyfer yr opsiynau neu unrhyw sylwadau ar y manteision a'r anfanteision a nodwyd ar gyfer y naill opsiwn a'r llall?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Cwestiwn 8: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft 2019 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 9: Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar gyfer Rheoliadau drafft 2019 neu eu newid er mwyn sicrhau:

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6:

Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 35 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Cwestiwn 7:

Cafwyd 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 34 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Cwestiwn 8:

Cafwyd 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 38 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Cwestiwn 9:

Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

Cafwyd 37 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai'r newidiadau a gynigiwyd yn y rheoliadau drafft yn cynyddu'r cyfleoedd i bob person ifanc ddysgu a defnyddio'r Gymraeg ac na fyddent yn arwain at effeithiau andwyol ar yr iaith. Nododd sawl ymateb nad oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, gan ychwanegu y byddent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr o bob math gan fod caffael dwy iaith neu fwy yn weithgaredd dysgu a all fod o fudd i bob disgybl.

Dylid nodi i rai ymatebion ddweud nad oedd digon o fanylion mewn rhai meysydd yn yr asesiadau effaith drafft, yn benodol o ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r gofynion o dan Ddeddf newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Lle roedd yna bryderon, roeddent yn ymwneud yn bennaf â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft (AERh). Mynegodd ymatebion pob awdurdod lleol, gan gynnwys y rhai gan bedwar sefydliad ac undeb addysg arall, farn gryf ar yr asesiad ddrafft. Cyfeiriodd ymatebion at y costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg (cyfalaf, referniw yn ogystal ag adnoddau staffio) nad oeddent wedi'u hadlewyrchu'n ddigonol yn yr AERh drafft a gynhwyswyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Fodd bynnag, nododd un ymateb fod manteision llunio rheoliadau newydd yn drech na'r anfanteision. Roedd ymateb arall o'r farn mai prif fantais cyflwyno'r rheoliadau newydd yw eu bod yn ymateb yn gadarn i'r heriau a gyflwynir gan strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg gan nodi eu bod yn '*...cydnabod rôl hollbwysig addysg wrth gyflawni'r nod hon a'r ffordd y mae angen trawsnewid y sector addysg mewn rhai ffyrdd*'. Fodd bynnag, nododd ymateb arall '*...Ni ellir cymryd yn ganiataol na fydd unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r newid hwn. Ac wrth i bwysau ariannol eraill waethygu, ni ddylid cymryd yn ganiataol y gall awdurdodau lleol ddefnyddio cyllid o feysydd eraill.*' [Cyfieithiad]

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er nad yw'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn gyffredinol, a bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ôl pob golwg yn cytuno â hynny, rydym yn gwerthfawrogi y gall fod angen adolygu rhai meysydd. Cyfeiriwyd at yr angen i gryfhau adrannau o gylch unrhyw drefniadau newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Ymrwymwn i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, yn ogystal ag adrannau penodol o'r AERh, cyn bwrw ymlaen i osod y Rheoliadau.

Rydym yn parhau'n hyderus y bydd y cynigion a gyflwynir gan y rheoliadau drafft yn arwain at well cynllunio, llai o fiwrocratiaeth a gwell effeithlonrwydd.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Cafwyd 24 dim ymateb i'r cwestiwn hwn

Crynodeb

Ailbwysleisiwyd materion a godwyd eisoes fel rhan o'r ymateb i gwestiynau 1-5 yma. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag ansicrwydd ariannol, trefniadau cyflenwi, recriwtio a chadw'r gweithlu addysg, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â meysydd polisi eraill, gan gynnwys cyllid cyfalaf, y Cod Trefniadaeth Ysgolion a threfniadau teithio gan ddysgwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dylid cyfeirio at Atodiad 1 o'r crynodeb o ymatebion hwn.

Crynodeb Cyffredinol a'r Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Dymuna'r Llywodraeth hefyd ddiolch i'r Bwrdd Cynghori CSGA am eu gwaith rhwng Mai 2018 – Mawrth 2019 yn craffu ar ein cynigion i ddiwygio'r fframwaith gynllunio trwy'r CSGA. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i gyflwyno rheoliadau diwygiedig fydd yn galluogi dull gweithredu newydd mewn perthynas â chynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rydym yn fodlon bod y cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ac a gyflwynir yn y rheoliadau drafft wedi cael croeso, ar y cyfan. Gwyddom fod cylch cynllunio 3 blynedd a'r ddyletswydd i gynnal asesiad costus ac aneffeithiol o'r galw yn cael effaith andwyol ar ein ymrwymiad genedlaethol i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion dwyieithog ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r fframwaith rheoleiddio'n addas i'r diben. Ni fydd yn darparu'r seilwaith rheoliadol sydd ei angen i wireddu ein huchelgeisiau. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ailbwysleisio'r safbwynt hwn.

Rydym yn derbyn argymhellion i egluro rhai gofynion penodol ynghylch y trefniadau ar gyfer adolygu a monitro'r Cynllun a'i ffurf a'i gynnwys. Byddwn yn ymdrin â hyn drwy gynnig gwelliannau i atodlen rheoliad 3 ac o bosibl hefyd, i reoliad 7. Caiff y canllawiau i'r rheoliadau hefyd eu hadolygu a'u diwygio fel y bo'n briodol.

O ran y pryderon ynghylch y cymorth sydd ei angen i roi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ar waith, mae angen inni fod yn agored ac yn onest am y ffaith nad oes unrhyw atebion cyflym i'r heriau cenedlaethol a lleol a wynebir. Bydd ein nod wrth ddiwygio'r trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun yn lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r fframwaith presennol. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, gobeithio y bydd ein hymdrech i egluro ein disgwyliadau mewn perthynas ag adolygu a monitro'r Cynllun yn lleihau'r pwysau sy'n deillio o'r her sy'n gysylltiedig â chynllunio tymor hwy ymhellach fyth.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) drafft 2019 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Byddai'r rheoliadau yn dod i rym ar ddiwedd mis Ionawr 2020, a chât'r canllawiau eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2020.

Bydd cyhoeddi'r canllawiau ym mis Chwefror 2020 yn caniatáu amser digonol i baratoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd. Mae'r rheoliadau drafft yn gwneud darpariaethau sy'n golygu y gall y cylch nesaf o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ddechrau ym mis Medi 2021 gyda'r Cynlluniau presennol yn parhau i fod ar waith yn ystod y cyfnod pontio i'r trefniadau CSGA newydd.

Atodiad 1

Ffactorau allanol

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi amlygu amrywiaeth eang o safbwyntiau o ran cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae cefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig yn ogystal â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar y broses o'u rhoi ar waith eisoes wedi effeithio ar feysydd polisi trawsbynciol yn Llywodraeth Cymru, a byddant yn parhau i wneud hynny. Mae'r trefniadau gweithio trawsweinidogol a welwyd fel rhan o'r grant cyfalaf addysg cyfrwng Cymraeg a'r grant cyfalaf gofal plant yn un enghraifft ddiweddar o sut y gall ymdrechion cysoni o'r fath arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Serch hynny, rydym yn cydnabod y meysydd lle mae angen mwy o sylw ar feysydd polisi trawsbynciol.

Nodwyd nifer o themâu allweddol penodol wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Er nad ydynt yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad ei hun, mae'n briodol rhoi sylw haeddiannol i'r materion hyn ac fel y cyfryw, teimlwn ei bod yn ddoeth ymdrin â nhw yma.

Goblygiadau Ariannol

Roedd rhai ymatebion yn nodi bod angen mwy o fuddsoddiad ariannol i fedru rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg ar waith yn llawn mewn ffordd effeithiol. Ni all Llywodraeth Cymru fod yn sicr o ran ei chyllid y tu hwnt i 2020, er y bydd cyllid i helpu i foderneiddio a threfnu ysgolion bob amser yn rhan angenrheidiol o raglen gyflenwi'r Llywodraeth i Gymru.

Ar hyn o bryd, saif cyfanswm buddsoddiad Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cyflenwi ar gyfer Band A, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a'r Rhaglen Cyfalaf Colegau ar lefel o £3.7 biliwn, gyda buddsoddiad o dros £1.4 biliwn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a buddsoddiad o £2.3 biliwn pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y cam nesaf. Yn ystod y cam buddsoddi pum mlynedd cyntaf, ein nod oedd ailadeiladu neu adnewyddu 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru, ac rydym wedi cyflawni hynny. Rydym wedi rhagori ar y targed, ac mae 170 o brosiectau eisoes wedi'u cymeradwyo. Hyd yn hyn, cwblhawyd 151 o brosiectau ac mae 19 o brosiectau eraill wrthi'n cael eu hadeiladu. Prif nodau'r rhaglen yw:

- Lleihau nifer yr adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael
- Lleihau nifer y lleoedd gwag
- Lleihau'r costau cynnal er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn targedu'r gwelliannau at ddeilliannau dysgwyr
- Mynd i'r afael â galw penodol am leoedd mewn addysg Gymraeg ac addysg Ffydd

Neilltuwyd £110 miliwn ychwanegol o gyllid grant i awdurdodau lleol a cholegau drwy Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, y Grant Hybiau Cymunedol, y Grant Lleihau Maint

Dosbarthiadau Babanod, y Grant Atgyweiriadau Brys i Ysgolion a Gynorthwyr yn Wirfoddol a Grant Digidol 2030.

Er gwaethaf y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn nad yw cyllid grant byrdymor yn diwallu anghenion cynllunio hirdymor yn ddigonol, gwyddom y gall ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth drwy roi hwb ariannol unigol gael effaith bellgyrhaeddol. Yn ystod 2018, sefydlwyd cronfa gyfun gwerth £46m ar gyfer grantiau cyfalaf cyfwng Cymraeg a grantiau'r Cynnig Gofal Plant er mwyn cefnogi'r twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, llwyddodd Llywodraeth Cymru i gefnogi tua 46 o brosiectau o fewn 20 o awdurdodau lleol a fydd, pan gaiff yr holl brosiectau eu gwireddu, yn arwain at 2818 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb ariannol hwn yn bwysig o ran helpu i gynyddu'r ddarpariaeth sydd ei hangen er mwyn ymateb i uchelgais Cymraeg 2050 a'r trefniadau newydd ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Nid dim ond y broses o gynllunio adeiladau ysgolion y mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfeirio ati. Maent hefyd yn cyfeirio at gynnal, cefnogi ac atgyfnerthu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd eisoes wedi'i sefydlu, gan adlewyrchu ein gweledigaeth i sicrhau bod Cymru yn wlad ddwyieithog. Roedd aelodau Bwrdd fforwm ieuencid Syr IfanC yn teimlo'n gryf bod angen dathlu buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg. Buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn ddwyieithog a'r drysau y mae'n eu hagog o ran profi cyfleoedd newydd, cyfleoedd gyda'r Urdd a chyfleoedd i ehangu gorwelion pobl ifanc. Rydym yn cydnabod bod angen adnoddau er mwyn cyfleu buddiannau darpariaeth addysg ddwyieithog neu addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys trafodaethau bywiog ynghylch hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, o ran yr hyn y mae'n ei olygu, beth sy'n gweithio, beth yw'r heriau.

Byddwn yn lansio Rhaglen Cymorth Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ddechrau'r flwyddyn nesaf, a fydd yn cynnwys cyfres o adnoddau er mwyn helpu i gynllunio'r cynlluniau a'u rhoi ar waith. Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu dull gweithredu wedi'i deilwra mewn perthynas ag arferion cynllunio ieithyddol; darparu adnoddau digidol a chynnwys ar y we yn seiliedig ar fframwaith EAST - sut i sicrhau bod dewisiadau yn hawdd, yn ddeniadol, yn gymdeithasol ac yn amserol ('easy, attractive, social and timely neu EAST yn Saesneg) a gwaith ymchwil yn seiliedig ar bensaernïaeth dewis; cyfle i wneud cais am gymorth ymgynghori dwys mewn perthynas ag anghenion gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg unigol; hyfforddiant ynghylch buddiannau bod yn ddwyieithog, a mwy. Am y tro cyntaf, byddwn hefyd yn hwyluso cynhadledd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar ddechrau'r flwyddyn newydd er mwyn cynnig cyfle i unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwaith o roi'r cynlluniau ar waith i rannu arferion da, dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, er mwyn gallu meithrin gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion pob dysgwr Cymraeg a'u diwallu'n well. Cyflwynir rhagor o wybodaeth am y gynhadledd maes o law.

Y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r her sy'n gysylltiedig â recriwtio athrawon yng Nghymru. Mae ein targedau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg eisoes yn hysbys, fel yr amlinellwyd yn *Cymraeg 2050*⁴, ac mae angen inni ddefnyddio data a gwybodaeth yn well er mwyn sicrhau y caiff ein camau gweithredu yr effaith fwyaf posibl.

Mae arwyddion cynnar o gynnydd yn erbyn targedau 2021 yn awgrymu ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond bod angen ffocws penodol ar gynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg neu bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai o'r camau gweithredu sydd ar waith ar hyn o bryd i ymdrin â'r prinder hwn yn cynnwys y canlynol:

- parhau â'r cymhelliant *laith Athrawon Yfory* sy'n targedu athrawon TAR uwchradd dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r cymhelliant yn ychwanegol at gymhellion eraill sydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant, ac mae'n cynnig cyfanswm o £5,000.
- Trefniadau cydweithio agos â Chyngor y Gweithlu Addysg a darparwyr AGA newydd er mwyn ategu a chefnogi prosesau recriwtio ledled Cymru a rhoi ymgyrch cyfryngau digidol ar waith sy'n anelu gweithgarwch marchnata at grwpiau penodol o ddarpar athrawon, gan gynnwys graddedigion cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu llwybrau amgen at addysgu drwy lwybrau rhan amser a llwybrau mewn swydd. Byddwn yn ystyried y sector cyfrwng Cymraeg wrth i'r llwybrau hyn gael eu rhoi ar waith.
- Rhaglen o weithgareddau wedi'u hanelu at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch a hyrwyddo llwybr at addysgu Cymraeg fel pwnc.

Er mwyn cyrraedd y targed o ran cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, bydd angen i nifer o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, gydweithredu'n effeithiol. Bydd 'Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017' yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth a data gwell am sgiliau Cymraeg, y gallu i addysgu a'r ymrwymiad amser. Cynhelir Cyfrifiad Blyneddol o'r Gweithlu Ysgolion am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019 a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gynllunio'r gweithlu ysgolion mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn deall adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg yn well.

Yn ogystal â defnyddio ffynonellau data, rhaid i ni wneud gwell defnydd o wybodaeth sydd gennym o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cynlluniau Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chynigion Trefniadaeth Ysgolion er mwyn deall ymhle y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu hagor neu ymhle y bydd lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cael eu creu dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall ble y bydd angen cynyddu'r capasiti addysgu er mwyn helpu i lywio'r niferoedd a dderbynnir i raglenni AGA neu ddarpariaeth llwybrau amgen.

⁴<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Mae angen i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ddarparu gwybodaeth werthfawr o lefel leol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Dylai awdurdodau lleol fod yn darparu gwybodaeth o dan y canlyniad penodol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gynllunio'r gweithlu sy'n rhagweld nifer yr athrawon/arweinwyr y bydd eu hangen yn ystod y cyfnod cynllunio, gan ddefnyddio data ar lefel ysgolion ac ar lefel awdurdodau lleol.

Mae'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn nodi bod disgwyl i bob ymarferydd barhau i feithrin ei sgiliau Cymraeg drwy gydol ei yrfa. Mae darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel er mwyn gwella sgiliau ymarferwyr yn hanfodol. Ar hyn o bryd, darperir cyfleoedd i helpu i feithrin sgiliau Cymraeg drwy'r Cynllun Sabothol a'r consortia rhanbarthol, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy na £5miliwn bob blwyddyn ariannol yn y ddarpariaeth hon.

Dylid ystyried y ddarpariaeth benodol hon yng nghyd-destun datblygiadau ehangach ym maes Dysgu Proffesiynol. Yn ystod hydref 2018, lansiodd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Mae'r ymagwedd "gwnaed yng Nghymru" hon at ddysgu proffesiynol yn gam allweddol yn y broses ddiwygio. Rhan annatod o'r Dull Cenedlaethol yw sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer dysgu proffesiynol ein hymarferwyr, gan gynnwys adnoddau ariannol ac amser i athrawon ac arweinwyr achub ar gyfleoedd datblygu o ansawdd uchel. Mae'r Dull Cenedlaethol yn gydnaws â'r safonau proffesiynol newydd, y dull gweithredu Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu a'r model dysgu proffesiynol, i greu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer y system addysg sy'n esblygu yng Nghymru i bob ymarferydd addysgol, nid dim ond athrawon. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

Rydym hefyd wedi cyflwyno pecyn cyllid gwell, sy'n cynnwys £24m ychwanegol (a fydd ar gael hyd at fis Mawrth 2020) er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn barod i gyflwyno cwricwlwm newydd yng Nghymru. Trosglwyddwyd yr holl gyllid hwn i ysgolion a gellir ei ddefnyddio mewn modd hyblyg er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio mewn ffyrdd sy'n addas at eu hamgylchiadau. Nod y cyllid yw creu'r amser a'r gofod i ymarferwyr ac arweinwyr gydweithio yn eu lleoliadau eu hunain ac ar draws rhwydweithiau er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gwnaethom hefyd ymgynghori ar gynigion i ehangu'r trefniadau HMS presennol er mwyn cyflwyno diwrnod HMS ychwanegol yn 2020 am gyfnod o dair blynedd.

Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn darparu gwell gwybodaeth ar lefel ysgolion am sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Mae angen defnyddio'r data hyn ar lefel leol ac ar lefel ranbarthol er mwyn llywio cynlluniau datblygu ysgolion a'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau y gall y ddarpariaeth ddiwallu anghenion ymarferwyr.

Lansiodd prosiect e-sgol yn 2018 ac mae'n cynnig cyfleoedd newydd i fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru fanteisio ar ddewis cynyddol o bynciau, wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y lefelau astudio uwch hyd at TGAU/Safon Uwch. Mae'r prosiect wedi galluogi myfyrwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu electronig gan athrawon cymwysedig a phrofiadol. Gall athrawon roi adborth byw i'r

disgyblion ar unwaith a gall disgyblion gyfrannu ar lafar at y wers fel petai'r athro yn yr un ystafell. Gall y system hefyd greu cysylltiadau â darparwyr eraill fel Prifysgolion er mwyn darparu sesiynau cyfoethogi ar lefel UG a Safon Uwch. Mae prosiect e-sgol yn seiliedig ar gynllun e-sgoil yr Alban.

Cynhaliwyd rhaglen beilot ar gyfer prosiect e-sgol yng Ngheredigion yn ystod 2018/19. Bydd yr ail flwyddyn beilot y bwriedir ei chynnal ar gyfer 2019/20 yn ehangu'r ddarpariaeth e-sgol i gynnwys ysgolion ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin. Gellid ehangu'r prosiect hwn ymhellach er mwyn creu llwyfan cenedlaethol ar gyfer e-sgol fel y gallai ysgolion o bob cwr o Gymru ddefnyddio'r model hwn a chefnogi partneriaethau rhwng ysgolion a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 10-13.

Dynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen adolygu'r system bresennol ar gyfer dynodi a diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg. Mae ein gwaith i fonitro Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg yn cadarnhau bod anghysondeb cynyddol rhwng y ffordd y caiff ysgol ei dynodi; y wybodaeth a roddir i rieni, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru am gategori ieithyddol yr ysgol; a'r ddarpariaeth ieithyddol wirioneddol sydd ar gael i'r disgyblion.

Mae hyn yn creu darlun anghywir o bosibl o'r sefyllfa o ran addysgu a dysgu'r Gymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny, nid yw'n rhoi gwybodaeth gywir na chlir i rieni a gwarcheidwaid am gyfrwng addysgu ysgolion yn eu hardal er mwyn iddynt allu gwneud dewis hyddysg ar ran eu plentyn.

Sefydlwyd bwrdd cynghori annibynnol ym mis Mai 2018 er mwyn rhoi argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn 2017 ar waith. Codwyd materion a oedd yn ymwneud â'r trefniadau a'r broses gymhleth ar gyfer dynodi a newid dynodiad ysgol yn ôl ei darpariaeth Gymraeg fel pryder ac felly, fe'i cynhwyswyd yn argymhellion adroddiad cryno'r bwrdd cynghori⁵.

Cymeradwyodd y Gweinidog Addysg gynnig i gomisiynu adolygiad o'r system bresennol ar gyfer dynodi ysgolion o ran cyfrwng y dysgu a'r addysgu.

Bu Meirion Prys Jones, cyn-Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn arwain yr adolygiad o'r trefniadau ar gyfer dynodi iaith yn ffurfiol ers mis Ionawr 2019. Cyflwynwyd adroddiad drafft ac mae wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Mae cydweithwyr o sawl maes polisi, gan gynnwys y Gymraeg, y Cwricwlwm, Deddfwriaeth, Trefniadaeth ysgolion a Gwybodaeth ysgolion, yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Y nod yw ymgynghori ar opsiynau lefel uchel er mwyn ailddiffinio dynodiadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg dros y misoedd nesaf. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at ddiwygio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac o bosibl at ganllawiau newydd ynghylch dynodi ysgolion.

⁵ <https://llyw.cymru/gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg>

Polisi cludiant ysgol

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008⁶ yn nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a phenaethiaid i ddarparu cludiant diogel i ddysgwyr. O ran awdurdodau lleol, mae'n rhaid iddynt wneud y canlynol;

- Asesu anghenion teithio dysgwyr hyd at 19 oed yn ardal eu hawdurdod
- Darparu cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf (fel y'i pennir gan yr awdurdod lleol)
- Darparu cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd ac sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf
- Hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur
- Rhaid rhoi unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth arall i awdurdodau lleol eraill sydd ei angen yn rhesymol arnynt i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur
- Rhaid rhoi gwybodaeth a chymorth i bennaethiaid am ymddygiad dysgwyr sy'n derbyn cludiant o dan y Mesur.

Ers llunio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, cyflwynwyd deddfwriaeth a strategaethau eraill sy'n effeithio ar deithio gan ddysgwyr, gan gynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg 2011 a strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, ymhlith eraill.

Mae angen dull gweithredu trawsweinidogol er mwyn ymdrin â'r mater hwn. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Gweinidogion perthnasol er mwyn ymdrin â phryderon ynghylch polisiau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol mewn perthynas â Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008. Gwneir cyhoeddiad am hyn maes o law.

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/contents>

Atodiad 2

Rhestr o'r ymatebwyr
Aneurin Jones, Cymdeithas yr Iaith
Angharad Dafis
Bwrdd Syr IfanC, Urdd Gobaith Cymru
CCAC
CLILC
Cymdeithas yr Iaith
Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Consortiwm Canol De Cymru
Cymwysterau Cymru
CYDAG
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor y Gweithlu Addysg
D Eifion Wynne
Dewi Morris, Cymdeithas yr Iaith
Dyfodol i'r Iaith
Estyn

Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd
Graham Berry, Cyngor Casnewydd
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
Gwerfyl Price, Cymdeithas yr Iaith
Gwyn Roberts
Ian Smith
Joanne Boycott
Kirsty Usher
Meic Haines, Cymdeithas yr Iaith
Mudiad Meithrin
NAHT Cymru
Peredur Williams, Cymdeithas yr Iaith
Prifysgol Bangor
RhAG
SNAP Cymru
UCAC
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Cyngorydd. Richard John. Aelod Cabinet Addysg, Cyngor Sir Fynwy
Y Gwasanaeth Addysg Cyngor Dinas Caerdydd
Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Cyngor Abertawe
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Yr Adran Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd
Yr Adran Addysg, Cyngor Gwynedd
Ysgol Uwchradd Fitzalan

Gofynnodd yr ymatebwyr eraill am gael aros yn ddiennw.